TAG UG/Uwch

1232/58

S15-1232-58

# HANES – HY2

## UNED 2
## ASTUDIAETH FANWL 8
## Argyfwng y Weriniaeth Americanaidd, tua 1848-1877

P.M. DYDD MERCHER, 20 Mai 2015

1 awr 20 munud

1232
580001

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **naill ai** cwestiwn 1 **neu** gwestiwn 2.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Dylai'r amser a ddefnyddiwch i ateb cwestiwn gyfateb i'r marciau sydd ar gael amdano.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Cofiwch y bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei ystyried wrth asesu eich atebion.**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## UNED 2

## ASTUDIAETH FANWL 8

### Argyfwng y Weriniaeth Americanaidd, tua 1848-1877

*Atebwch* **naill ai** *cwestiwn 1* **neu** *gwestiwn 2***.**

### CWESTIWN 1

**Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.**

**Ffynhonnell A**

Roedd llaw gadarn Grant wrth y llyw ar ôl Mawrth 1864 wedi rhoi gobeithion addawol am fuddugoliaeth i'r Gogledd. Ni fyddai unrhyw ddiffyg nerfau ar y ffrynt nac unrhyw droi'n ôl oherwydd ataliadau dros dro. Pe byddai'r cyhoedd yn y Gogledd yn parhau yn ymroddedig i fuddugoliaeth, byddai ganddynt y cadlywydd mewn swydd i ddal ymlaen yn y maes.

[Gary Gallagher, hanesydd blaenllaw y Rhyfel Cartref o UDA, yn ysgrifennu mewn casgliad o draethodau, *Why the Confederacy Lost* (1992)]

**Ffynhonnell B**

Roeddwn i felly wedi penderfynu, yn gyntaf, defnyddio'r nifer ymarferol mwyaf o filwyr yn erbyn lluoedd arfog y gelyn ac, yn ail, curo'n barhaol yn erbyn lluoedd arfog ac adnoddau'r gelyn, hyd nes drwy athreuliad *(attrition)* yn unig, os nad drwy unrhyw ffordd arall, y byddai dim ar ôl iddo i'w wneud ond ildio.

[Y Cadfridog U. S. Grant, yn ei adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ryfel, ar ôl iddo orffen ei swydd fel uwch-gadfridog byddinoedd y Gogledd (Gorffennaf 1865)]

**Ffynhonnell C**

Roedd economi gaethiwol taleithiau'r De nid yn unig yn effeithlon, yn broffidiol ac yn economaidd ond hefyd roedd yn sicrhau bod yr amodau ar gyfer y caethweision yn gwella. Roedd amaethyddiaeth y De tua 35% yn fwy effeithlon nag amaethyddiaeth y Gogledd yn 1860.

[R. W. Fogel ac S. Engerman, haneswyr economaidd o UDA, yn ysgrifennu yn eu hastudiaeth o gaethwasiaeth yn y De, *Time on the Cross* (1974)]

**Ffynhonnell CH**

Yr argraff gefais i o gyflwr gwirioneddol pobl ein taleithiau caethiwol oedd bod y monopoli cotwm yn gwneud mwy o ddrwg nag o les. Teithiais i 3,000 o filltiroedd drwy'r taleithiau hyn a gweld nad oedd y bobl oedd yn byw yn yr ardaloedd hynny wedi'u gwneud yn gyfoethog gan gotwm neu unrhyw beth arall.

[Frederick Olmsted, newyddiadurwr o'r Gogledd, yn ysgrifennu yn ei lyfr am ei deithio yn UDA, *The Cotton Kingdom*, a gafodd ei gyhoeddi yn 1861]

**Ffynhonnell D**

Saith a phedwar ugain o flynyddoedd yn ôl daeth ein tadau â chenedl newydd i fod ar y cyfandir hwn, wedi'i chreu ar sail rhyddid a'i chysegru i'r syniad bod pob dyn wedi'i greu yn gydradd. Rydyn ni nawr yn wynebu ein gilydd mewn rhyfel ar faes brwydr enfawr. Yma rydyn ni'n addunedu *(resolve)* yn ddwys na fydd y meirw wedi cael marw yn ofer ac y bydd y genedl hon, dan law Duw, yn gweld rhyddid yn atgyfodi o'r newydd.

[Rhan o Araith Gettysburg Abraham Lincoln (Tachwedd 1863)]

**Ffynhonnell DD**



[Rhan o gartŵn gan Thomas Nast, cefnogwr i'r Gogledd, wedi'i gyhoeddi mewn papur newydd o'r Gogledd, *Harpers Weekly*, yn 1865. Mae'r cartŵn yn darlunio teulu o Americanwyr Affricanaidd yn mwynhau manteision rhyddid o'u cymharu ag erchyllterau caethwasiaeth]

1232
580003

*(a)* Beth mae awdur Ffynhonnell D yn ei olygu wrth yr ymadrodd, ‘bydd y genedl hon, dan law Duw, yn gweld rhyddid yn atgyfodi o’r newydd’? [8]

*Yn eich ateb, fe’ch cynghorir i drafod cynnwys ac awduraeth y ffynhonnell ac i ddefnyddio’r hyn rydych chi’n ei wybod.*

*(b)* Pa mor arwyddocaol oedd rôl y Cadfridog U. S. Grant yn y Rhyfel Cartref? [16]

*Eglurwch eich ateb trwy ddadansoddi a gwerthuso cynnwys ac awduraeth Ffynonellau A a B a defnyddio’r hyn rydych chi’n ei wybod.*

*(c)* Ydych chi’n cytuno â’r dehongliad bod economi’r De yn ffynnu ac yn broffidiol *(thriving and profitable)* erbyn 1860? [24]

*Eglurwch eich ateb trwy ddadansoddi a gwerthuso cynnwys ac awduraeth Ffynonellau C ac CH a defnyddio’r hyn rydych chi’n ei wybod.*

*(ch)* Pa mor ddefnyddiol yw Ffynonellau CH, D ac DD o ran deall Rhyfel Cartref America hyd at 1865? [32]

*Yn eich ateb, fe’ch cynghorir i ddadansoddi a gwerthuso cynnwys ac awduraeth y ffynonellau hyn ac i ddefnyddio’r hyn rydych chi’n ei wybod.*

## CWESTIWN 2

**Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.**

### Ffynhonnell A

Ydy ethol Lincoln yn rhoi cyfiawnhad i daleithiau'r De i ddiddymu'r Undeb? Dyma'r hawliau cyfansoddiadol mae taleithiau'r De yn eu hawlio:

Yn gyntaf, rhoi cydnabyddiaeth i'r gyfundrefn gaethwasiaeth.
Yn ail, yr hawl i fynd gyda'u heiddo caethiwol i diriogaethau cyffredin yr Undeb.
Yn drydydd, hawl perchennog caethweision i adennill ei eiddo yn unrhyw dalaith y gallai'r caethwas fod wedi dianc iddi.

Mae'r elyniaeth rhwng yr hawliau hyn ac egwyddorion y blaid Weriniaethol Ddu yn amlwg, yn uniongyrchol ac yn amhosibl eu cysoni. Ar 4 Mawrth 1861 bydd y Llywodraeth Ffederal yn symud i ddwylo'r Diddymwyr a does dim amheuaeth gen i nad oes hawl gennych i ymwahanu o'r Undeb.

[Rhan o ddatganiad i bobl Georgia gan Howell Cobb, aelod o'r Blaid Ddemocrataidd yng Nghyngres UDA (6 Rhagfyr 1860)]

### Ffynhonnell B

Nid oedd Lincoln yn gweld yr hyn roedd pobl y De yn ei weld yn 1860-1861. Gallai Lincoln ddadlau nad oedd unrhyw awdurdod ganddo fel arlywydd i gyffwrdd â chaethwasiaeth. Eto roedd pob Deheuwr yn gwybod y gallai wneud y peth ail orau, sef tarfu *(unsettle)* arni, efallai trwy achosi gwrthryfel ymysg y caethweision neu roi cefnogaeth i ddiddymwyr mewn swyddi Ffederal.

[Allen Guelzo, hanesydd blaenllaw y Rhyfel Cartref o UDA, yn ysgrifennu yn ei werslyfr, *Lincoln*: *A Very Short Introduction* (2009)]

### Ffynhonnell C

Sut gall yr Undeb gael ei hachub? Dim ond un ffordd sydd, a honno yw trwy fabwysiadu'r math o fesurau fydd yn bodloni'r taleithiau sy'n perthyn i'r adran ddeheuol fel bod modd iddyn nhw barhau yn yr Undeb gydag anrhydedd a diogelwch. Dim ond dymuno hynny mae angen i'r Gogledd ei wneud er mwyn ei gyflawni, sef caniatáu hawl cyfartal i'r De yn y tiriogaethau sydd newydd eu meddiannu, cyflawni penderfyniadau'n ymwneud â thriniaeth caethweision ar ffo a rhoi'r gorau i godi cynnwrf ynghylch y cwestiwn caethwasiaeth.

[Y Seneddwr John Calhoun, cyn Ddirprwy Arlywydd, perchennog caethweision a chefnogwr hawliau'r taleithiau, yn ei araith olaf gerbron Senedd UDA, mewn dadl ynghylch Cyfaddawd 1850 (4 Mawrth 1850)]

### Ffynhonnell CH

Roedd Cyfaddawd 1850 yn llwyddiant deddfwriaethol o bwys a dynnodd y tir o dan draed ymwahanwyr a radicaliaid gwrth-gaethwasiaeth fel ei gilydd. Roedd mwyafrif o bobl America yn gorfoleddu'n wyllt wrth i'r genedl gael ei hachub, ond prin roedden nhw'n ymwybodol bod hadau dinistr yn dal i gael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth roedd y Gyngres wedi'i chymeradwyo.

[Robert Cook, hanesydd academaidd, yn ysgrifennu yn ei werslyfr arbenigol, *Civil War America – Making a Nation 1848-1877* (2003)]

**Ffynhonnell D**

Ni wnaeth Lincoln gondemnio caethwasiaeth yn gyhoeddus ar sail foesol tan 1854. Iddo ef, roedd cwestiwn caethwasiaeth wedi'i gysylltu'n agos â chwestiynau'r undeb a democratiaeth. Ym mhob araith a gofnodwyd o 1854 hyd 1861, roedd e'n ailadrodd y rhybudd y gallai caethwasiaeth fynd yn genedlaethol, a phe bai hynny'n digwydd byddai'n ddiwedd ar America rydd.

[R. B. Nye a J. E. Morpurgo, haneswyr academaidd, yn ysgrifennu yn eu llyfr hanes cyffredinol, *The Growth of the USA* (1965)]

**Ffynhonnell DD**



[Rhan o gartŵn gan y diddymwyr dan y teitl, *Syniadau'r De am Ryddid*, a gafodd ei gyhoeddi yn Boston yn y 1840au. Mae'r cartŵn yn dangos barnwr â chlustiau asyn, yn eistedd ar fyrnau cotwm a thybaco, yn dedfrydu diddymwr i gael ei grogi]

*(a)* Beth mae awdur Ffynhonnell C yn ei olygu wrth yr ymadrodd, 'caniatáu hawl cyfartal i'r De yn y tiriogaethau sydd newydd eu meddiannu'? [8]

*Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i drafod cynnwys ac awduraeth y ffynhonnell ac i ddefnyddio'r hyn rydych chi'n ei wybod.*

*(b)* Pa mor arwyddocaol oedd ethol Lincoln yn 1860 o ran achosi'r Rhyfel Cartref? [16]

*Eglurwch eich ateb trwy ddadansoddi a gwerthuso cynnwys ac awduraeth Ffynonellau A a B a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei wybod.*

*(c)* Ydych chi'n cytuno â'r dehongliad bod Cyfaddawd 1850 yn ddiffygiol iawn? [24]

*Eglurwch eich ateb trwy ddadansoddi a gwerthuso cynnwys ac awduraeth Ffynonellau C ac CH a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei wybod.*

*(ch)* Pa mor ddefnyddiol yw Ffynonellau CH, D ac DD o ran deall Rhyfel Cartref America hyd at 1865? [32]

*Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddadansoddi a gwerthuso cynnwys ac awduraeth y ffynonellau hyn ac i ddefnyddio'r hyn rydych chi'n ei wybod.*

**DIWEDD Y PAPUR**